

Canllaw Athrawon i'r adnoddau *Meddwl*

Mae'r adnoddau *Meddwl* yn rhan hanfodol o'r Wythnos Ddŵr gan eu bod yn annog disgyblion i feddwl yn feirniadol ynglŷn â'r hyn y gall unigolion, cymunedau, sefydliadau a llywodraethau ei wneud i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr. Bydd y disgyblion yn ystyried effaith atebion tymor byr ac atebion tymor hir.

Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn cynnwys astudiaeth achos o brosiect Wythnos Ddŵr diweddar, sef cynllun dyfrhau yn Liberia. Darperir manylion y prosiect hwn a'r gweithgareddau cysylltiedig i ddisgyblion yn ein canllaw ar wahân ar gyfer athrawon - '**Canllaw Athrawon i Astudiaeth Achos Liberia**'

Amser: 50-80 munud

- Clipiau ffilm *Meddwl*: 30-40 munud
- Coeden diffyg sicrwydd dŵr: rhan 2: 10-20 munud
- Diagram Venn: 10-20 munud

Amcanion Dysgu

- Adnabod atebion tymor byr a thymor hir i ddiffyg sicrwydd dŵr.
- Gwybod beth yw ystyr y termau argyfwng dyngarol, datblygu ac ymgyrchu.
- Meddwl yn feirniadol ynglŷn ag effaith camau tymor byr a thymor hir.
- Dysgu am ddiffyg sicrwydd dŵr yn ne-ddwyrain Liberia.

Cwestiynau allweddol

- Sut ellir mynd i'r afael ag achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr?
- Beth yw'r atebion tymor byr? Beth yw'r atebion tymor hir?
- Pa gamau sydd fwyaf priodol?

Adnoddau (noder bod taflenni y gellir eu llungopio ar gael ar ddiwedd y pdf hwn)

- Sioe sleidiau *Meddwl**
- Clipiau ffilm *Meddwl* x 5 (*Saesneg yn unig*):
 - *Infrastructure and water vulnerability* - Isadeiledd a diffyg sicrwydd dŵr: Liberia
 - *Drought and water vulnerability* - Sychder a diffyg sicrwydd dŵr: Uganda
 - *Flooding and water vulnerability* - Llifogydd a diffyg sicrwydd dŵr: O amgylch y byd
 - *Infrastructure and water vulnerability* - Isadeiledd a diffyg sicrwydd dŵr: Ethiopia / Haiti
 - *Conflict and water vulnerability* - Gwrthdaro a diffyg sicrwydd dŵr: Chad / Angola
- Taflen waith *Meddwl* ar gyfer y clipiau ffilm – un i bob disgybl
- Taflen waith *Enghreifftiau o atebion posibl* – ar gyfer disgyblion dethol
- *Coeden diffyg sicrwydd dŵr* wedi'i chwblhau *neu* dempled o weithgaredd *Dysgu* – un i bob pâr o ddisgyblion
- *Diagram Venn* a *chardiau ymateb* – un set i bob pâr o ddisgyblion
- Dogfen ar wahân *Think: Country information for teachers* (*Saesneg yn unig*)



*Noder y bydd gwybodaeth newydd yn ymddangos ar y rhan fwyaf o'r sleidiau pan fyddwch yn clicio. Mae'r cylch glas yn y gornel chwith ar y gwaelod yn dangos bod y sleid wedi'i gwblhau.

Gweithgaredd 1: Clipiau ffilm *Meddwl* (30-40 munud)

Dangoswch sleidiau 1-7 o sioe sleidiau *Meddwl* i'r disgyblion

Mae'r sioe sleidiau hon yn cyflwyno dulliau gweithredu tymor byr a thymor hir i ddiffyg sicrwydd dŵr drwy bum clip ffilm sy'n dangos Oxfam yn delio ag achosion diffyg sicrwydd dŵr sydd wedi'u cyflwyno yn y clipiau ffilm *Dysgu*.

Taflen waith clipiau ffilm *Meddwl*

1. Rhowch gopi o'r daflen waith *Meddwl* (templod ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon) i bob disgybl a gofynnwch iddynt wylio'r clipiau ffilm. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried pob ymateb yn ei dro: a fydd yn helpu yn y tymor byr (goresgyn symptomau diffyg sicrwydd dŵr) neu yn yr hirdymor (gweithredu ar yr achosion sylfaenol)?
2. Gofynnwch iddynt roi tic yn y blwch perthnasol ar gyfer pob un o'r ymatebion maent yn ei weld. I'w cynorthwyo, bydd y disgyblion yn gweld tic glas yn ymddangos ar y sgrin. Ar y pwynt hwn, gellir stopio'r ffilm er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i lenwi'r daflen.



Stopiwch y ffilm pan welwch y tic glas er mwyn caniatáu i'r disgyblion lenwi'r llinell berthnasol ar eu taflen.

	Examples of Oxfam's action	Is it to help now? (+/-)	Is it to help in the future? (+/-)	Who can you see Oxfam working with?
Conflict	Installing boreholes and bladders			
	Installing boreholes and wells			
	Hygiene promotion			
Drought	Better farming systems (irrigation)			
	Community working together			
Infrastructure	Water conservation using trees			
	Digging wells (so children can go to school)			
	Water trucks, bladders and pipes			
Floods	People talking to each other			
	People talking to politicians			

Called humanitarian emergency work (focussing on symptoms)

Called development or campaigning work (focussing on causes)

3. Trafodwch ddeusiadau'r disgyblion a defnyddiwch y gweithgaredd hwn i gyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o argyfwng dyngarol, gwaith datblygu ac ymgyrchu. Efallai byddwch yn dymuno cyfeirio at yr eirfa neu at y ffotostorïau *Meddwl* ar y dudalen adnoddau atodol.

Gweithgaredd 2: Coeden diffyg sicrwydd dŵr: rhan 2 (10-20 munud)

Edrychwch ar sleid 8 o sioe sleidiau *Meddwl*

Mae'r ffotograffau ar y sleid hon yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y gweithgaredd coeden diffyg sicrwydd dŵr. Gofynnwch i ddisgyblion dethol rannu'r atebion y maent yn eu gweld.

1. Dychwelwch y coed diffyg sicrwydd dŵr yr oedd y disgyblion wedi'u cwblhau mewn parau yn ystod y gweithgareddau *Dysgu*, neu gofynnwch i'r disgyblion ychwanegu achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr ar goed newydd nawr (gweler y ddogfen *Canllaw Athrawon i weithgareddau Dysgu*).


- Gofynnwch i'r disgyblion dynnu lluniau siapiau ffrwythau ar eu coed ac ysgrifennu rhai o'r atebion i ddiffyg sicrwydd dŵr maent wedi'u gweld ar y clipiau ffilm. Er enghraifft, ar gyfer 'Sychder' gallant ysgrifennu 'Adeiladu systemau dyfrhau i ddod â dŵr i mewn o rywle arall'. Ar gyfer 'Newid yn yr Hinsawdd' gallant ysgrifennu 'Ymgyrchu i leihau allyriadau carbon' ac yn y blaen. Efallai y byddwch yn dymuno cyfeirio at y daflen *Enghreifftiau o atebion* isod am syniadau pellach.
- Fel o'r blaen, gofynnwch i'r disgyblion arddangos eu coed diffyg sicrwydd dŵr i weddill y dosbarth eu gweld, ac yna cylchdroi o amgylch yr ystafell ddosbarth. Defnyddiwch sylwadau'r disgyblion fel sail i drafodaeth am atebion posibl, gan amlygu pa ymatebion sy'n rhai tymor byr a pha ymatebion sy'n rhai hirdymor. Efallai y byddwch yn dymuno cyfeirio at yr wybodaeth am wledydd neu'r ffotostoriau ar y dudalen adnoddau atodol.

Gwahaniaethu

Symleiddio: Rhowch *Enghreifftiau o atebion posibl* i'r disgyblion i'w helpu i gwblhau eu *Coeden Diffyg Sicrwydd Dŵr*.

Mwy heriol: Dyfeisiwch gadwyn pam-pam-pam ar gyfer un o'r symptomau diffyg sicrwydd dŵr. Gallai helpu disgyblion i feddwl am atebion pellach i'w darlunio ar eu coeden diffyg sicrwydd dŵr.

Er enghraifft:



I'r rhai sy'n gorffen yn gyflym: cwblhau'r gweithgareddau amgyffred sy'n seiliedig ar y clipiau ffilm meddwl, sydd i'w canfod yn yr adnoddau atodol.

Gweithgaredd 3: Diagram Venn (10-20 munud)

Edrychwch ar sleidiau 9 a 10 o'r sioe sleidiau Meddwl

Mae'r sleidiau hyn yn cyflwyno disgyblion i'r gweithgaredd diagram Venn isod.

- Torrwch allan y cardiau ymateb, sy'n cyfateb i'r ymatebion a welwyd yn y clipiau ac ar daflen waith *Meddwl* y disgyblion.
- Gofynnwch i'r disgyblion eu gosod yn y manau perthnasol ar y diagram Venn, gan eu dosbarthu fel argyfwng dyngarol, datblygu neu ymgyrchu. Nid oes rheolau pendant, a'r pwynt pwysicaf yw nid i'r disgyblion gael yr atebion yn 'gywir', ond yn hytrach ystyried eu

penderfyniadau yn ofalus. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y blwch gwybodaeth isod.

3. Unwaith y bydd y disgyblion wedi penderfynu ble i osod y camau, gallwch ofyn iddynt gymharu a chyferbynnu eu penderfyniadau â'i gilydd.

Mae Oxfam yn dosbarthu ei waith yn dri maes, sydd wedi'u cynrychioli yn y clipiau ffilm:

Argyfwng Dyngarol

Helpu pobl yn gyflym mewn argyfwng. Drwy ddarparu cymorth, cefnogaeth a diogelwch yn gyflym, mae hyn yn achub bywydau; mae'r gwaith hwn hefyd yn helpu cymunedau i ddatblygu'r gallu i ymdopi ag argyfyngau yn y dyfodol.

Datblygu

Gwaith yn yr hirdymor i ymladd yn erbyn tlodi mewn cymunedau. Fe'i cyflawnir drwy gefnogi pobl i gymryd yr awenau, datrys eu problemau eu hunain, a dibynnu ar eu hunain.

Ymgyrchu

Nid yw tlodi yn ymwneud â diffyg adnoddau yn unig. Mewn byd cyfoethog, mae'n ymwneud â phenderfyniadau gwael gan bobl bwerus. Mae ymgyrchu yn rhoi pwysau ar arweinwyr i wneud penderfyniadau sy'n creu newid gwirioneddol a pharhaol i atal tlodi a dioddefaint.

I ddarganfod mwy ewch i:

http://www.oxfam.org.uk/oxfam_in_action/what_we_do/index.html

Camau nesaf

Dechreuwch y gweithgaredd *astudiaeth achos Liberia* neu symudwch ymlaen i'r sioe sleidiau *Gweithredu*. Gallech hefyd chwarae'r *Gêm Diffyg Sicrwydd Dŵr* o'r adnoddau atodol yn y fan hon.

Engbreiffiau o atebion posibl

Atebion

1. Rhoi cyflenwadau argyfwng i bobl, megis dŵr glân o dryciau a phledrenni.
2. Ymgyrchu dros leihau'r fasnach arfau.
3. Ymgyrchu dros ostyngiad mewn allyriadau carbon mewn gwledydd cyfoethog.
4. Ymgyrchu i lywodraethau gefnogi ffermwyr i dyfu digon o fwyd i'w fwyta a'i werthu drwy ddarparu isadeiledd dŵr megis cynlluniau dyfrhau. Codi arian i gael isadeiledd dŵr gwell ar gyfer ffermwyr.
5. Helpu i sicrhau bod lleisiau merched yn cael eu clywed.

Taflen waith clipiau ffilm Meddwl

	Engbreiffiau o gamau gweithredu Oxfam	A yw hyn yn helpu nawr? (✓)	A fydd hyn yn helpu yn y dyfodol? (✓)	Gyda phwy y gallwch chi weld Oxfam yn gweithio?
Niger	Gosod tyllau turio			
Gwrthdaro	Gosod tyllau turio a phledrenni			
	Gosod tyllau turio a ffynhonnau			
	Hyrwyddo hylendid			
Sychder	Systemau ffermio (dyfrhau) gwell			
	Cymunedau yn gweithio gyda'i gilydd			
	Cadwraeth dŵr gan ddefnyddio coed			
Isadeiledd	Cloddio ffynhonnau (fel y gall plant fynd i'r ysgol)			
	Tryciau dŵr, pledrenni a phibau			
Llifogyd	Pobl yn siarad gyda'i gilydd			
	Pobl yn siarad gyda gwleidyddion			

Gelwir hyn yn waith **argyfwng dyngarol** (canolbwyntio ar symptomau)

Gelwir hyn yn waith **datblygu neu ymgyrchu** (canolbwyntio ar achosion)

Templed coeden diffyg sicrwydd dŵr





Diagram Venn

(argraffwch ar ddalen A3)



Ymateb Oxfam (*argraffwch ar ddalen A4 a'i dorri allan*)

Gosod tyllau turio, pledrenni a ffynhonnau	Hyrwyddo hylendid
Cymunedau yn gweithio gyda'i gilydd	Pobl yn siarad gyda gwleidyddion
Tryciau dŵr a phibau	Pobl yn siarad gyda'i gilydd
Systemau ffermio (dyfrhau) gwell	Cloddio ffynhonnau fel y gall plant fynd i'r ysgol
Cadwraeth dŵr (fel plannu coed)	

Geirfa ar gyfer clipiau ffilm *Meddwl*

Mae'r eirfa hon yn cynnwys rhestr o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn ystod y clipiau ffilm *Meddwl*. Mae'r diffiniadau'n addas i'r cyd-destun y defnyddir y geiriau.

Isadeiledd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Liberia

- **Irrigation** - *dyfrhau*: cloddio sianeli a ffosydd i roi cyflenwad dŵr i gaeau
- **Conflict** - *gwrthdaro*: anghytundeb rhwng pobl, a all arwain at ymladd a rhyfel
- **Self-sufficient** - *hunangynhaliol*: gallu darparu neu gyflenwi rhywbeth ar eich cyfer eich hun

Sychder a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Uganda / Zimbabwe

- **Drought** - *sychder*: prinder glaw difrifol dros gyfnod hir o amser
- **Irrigation** - *dyfrhau*: cloddio sianeli a ffosydd i roi cyflenwad dŵr i gaeau
- **Conserve** - *cadwraeth*: gofalu, diogelu
- **Unpredictable** - *anwadal*: annisgwyl, digwydd yn ddirybudd
- **Water conservation** - *cadwraeth dŵr*: gofalu am adnoddau dŵr
- **Environment** - *amgylchedd*: y byd naturiol mewn ardal arbennig

Llifogydd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: O amgylch y byd

- **Flood** - *llyfogydd*: swm mawr, peryglus o ddŵr sydd wedi lledaenu dros dir sych
- **Climate Change** - *newid yn yr hinsawdd*: newidiadau yn nhymeredd a thywydd y Ddaear dros gyfnod hir o amser
- **Drought** - *sychder*: prinder glaw difrifol dros gyfnod hir o amser
- **Partnerships** - *partneriaethau*: sefydliadau (megis Oxfam) yn gweithio gyda'i gilydd

Isadeiledd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Ethiopia / Haiti

- **Water Infrastructure** - *isadeiledd dŵr*: pibellau a ffynhonnau wedi'u hadeiladu gan y llywodraeth i ddarparu dŵr
- **Water trucks** - *tryciau dŵr*: tryciau a ddefnyddir i gludo dŵr
- **Bladder** - *pledren*: bag mawr y gellir ei ddefnyddio i storio dŵr

Gwrthdaro a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Chad / Angola

- **Conflict** - *gwrthdaro*: anghytundeb rhwng pobl, a all arwain at ymladd a rhyfel
- **Borehole** - *twll turio*: twll yn y ddaear i gyrraedd at ddŵr
- **Bladder** - *pledren*: bag mawr y gellir ei ddefnyddio i storio dŵr
- **Sanitation** - *glanweithdra*: cael gwared ar ddŵr budr a gwastraff toiledau
- **Hygiene promotion** - *hyrwyddo hylendid*: addysgu pobl sut i aros yn lân ac yn iach
- **IDP: Internally Displaced Person** - *IDP*: Unigolyn sydd wedi'i Ddadleoli'n Fewnol. Rhywun sydd wedi'i orfodi i adael ei gartref a symud i ran arall o'i wlad